



# Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (ADUS)

Goleuo'r gorffennol er mwyn gwneud y dyfodol yn fwy diogel

## BRIFFIAD 7 MUNUD

Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau, e-bostiwch: [SUSRWales@gov.cymru](mailto:SUSRWales@gov.cymru)

### CEFNDIR

Creu un broses adolygu lle mae angen dull amlasiantaethol, gan ymgorffori'r prosesau adolygu canlynol Adolygiad Ymarfer Oedolion; Adolygiad Ymarfer Plant; Adolygiad Lladdiad Domestig; Adolygiad Lladdiad Iechyd Meddwl; Adolygiad Lladdiad gydag Arf Ymosodol (OWHR). Yna, defnyddir yr adroddiad terfynol i hysbysu arferion proffesiynol drwy Ystorfa Diogelu Cymru.

### CANLLAWIAU STATUDOL SUSR

- Comisiynwyd Fradd Consultancy i gynnal sesiynau ymgysylltu trwy gydol y cyfnod ymgynghori. Cynhelir y sesiynau ymgysylltu cyn-ymgynghori ar 18,19 ac 20 Hydref (bydd sesiwn bore a phrynhawn bob dydd). Defnyddiwch y cyfeiriad e-bost uchod i nodi pa sesiwn yr hoffech chi ei fynychu.
- Mae tîm SUSR wedi anfon drafft terfynol y canllawiau i'w gyfieithu i'r Gymraeg, ac mae fersiwn Hawdd ei Ddarllen yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

### CYNNYDD HYD YN HYN

- Bydd Tîm SUSR yn cyflwyno Canllawiau Statudol SUSR yng nghyfarfod nesaf y Grŵp Llywio. Bydd hyn yn cynnwys unrhyw welliannau a wnaed o ganlyniad i'r sesiynau ymgysylltu cyn ymgynghori
- Datblygwyd y cynnwys ar gyfer y Dudalen We SUSR. Bydd hwn yn cael ei leoli ar wefan Llywodraeth Cymru. Bydd y platfform hwn hefyd yn cynnwys dolenni at Ganllawiau Statudol SUSR, gwybodaeth ymgynghori, Pecyn Cymorth SUSR a thempledi defnyddiol eraill.

### LLADDIAD GYDAG ARF YMOSODOL

- Mae paratoadau ac ystyriaethau ar gyfer y grŵp Tasg a Gorffen Lladdiad Gydag Arf Ymosodol nesaf ar y gweill. Cyn bo hir bydd y grŵp hwn yn cael ymarfer bwrdd sy'n ystyried peilot SUSR/OWHR Cymru.

### CYFREITHIOL A LLYWODRAETHU

- Mae'r gwaith yn parhau er mwyn llunio cytundeb cyd-reolwr data rhwng Prifysgol Caerdydd a Llywodraeth Cymru ar gyfer Ystorfa Diogelu Cymru.

### STORFA DIOGELU CYMRU (WSR)

- Mae tîm y WSR wedi bod yn gweithio gyda Geldards i ddeall gofynion y Cytundeb Defnyddwyr ar gyfer y WSR.

### DYSG A HYFFORDDIANT

- Cynhaliwyd cyfarfod gydag un o'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer creu deunyddiau Hyfforddi SUSR. Bydd ymchwil pellach i'r dull mwyaf addas nawr yn cael ei gynnal.

### LLADDIAD IECHYD MEDDWL

- Bydd y Grŵp Tasg a Gorffen Iechyd Meddwl yn parhau i drafod er mwyn sicrhau bod y gofynion Lladdiad Iechyd Meddwl yn addas o fewn y broses SUSR.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg

